# Cyngor Tref ***NEFYN*** Town Council

<u>COFNODION</u> Cyfarfod Cyngor, Nos Fawrt 13/11/2018 Siop Siarad am 7yh

**<u>Presennol</u>**

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Rhys Tudur (Cad.) | Gruffydd Williams | Gwynfor Jones | Bleddyn Evans | Sharon Williams |
| Glenda Rice | Janice Evans | Catrin Roberts | Lleucu Jones | Carys Roberts |
| Arfon Hughes | Sian Hughes | Rhian Hughes-Jones (Clerc) | | |

1. **Ymddiheuriadau**
   Wedi derbyn ymddiheuriadau gan Guto Williams

2. **Datgan buddiant ariannol neu gysylltiad bersonol**
   Gruffydd Williams – Ceisiadau Cynllunio; Aelod o Bwyllgor Cynllunio.
   Gwynfor Ellis Jones – Sedd wag Edern – Perthyn i ymgeisydd.
   Sian Hughes – Cais Cynllunio Wern, Nefyn – Wedi Sefyll fynnu fel aelod lleol ar y cais.
   Gwilym Arfon Hughes – Cais Cynllunio Hen Bost, Nefyn – Cysylltiad teuleuol.
   Bleddyn Evans – Cais Cynllunio Swyddfa'r Heddlu, Nefyn – Gwneud Gwaith yno.

3. **Cofnodion 11/09/2018, Is-bwyllgor Gweithgareddau 18/10/2018, Is-bwyllgor Ariannol (er cywirdeb yn unig)**
   Newid gan Sharon Williams – Nodwyd nad cafodd Sharon Williams ei enwebu i fynd ar banel cyfweld y clwb ieuenctid. Cofnodion wedi eu derbyn yn gywir yn dilyn y newid.
   Wedi derbyn cofnodion is bwyllgor gweithgareddau yn gywir.
   Mae Catrin Roberts yn codi pryder nad oedd penderfyniad swyddogol wedi ei wneud yn yr is-bwyllgor gweithgareddau, ac yn anfodlon i'r hyn newid penderfyniad pwyllgor llawn. Nodwyd nad oedd penderfyniad swyddogol wedi ei wneud yn bwyllgor llawn ar y mater ychwaith. Mae Catrin Roberts am gael mwy o amser i feddwl am y geiriad cyn gellir derbyn y cofnodion yn gywir.

4. **Unrhyw Fater Brys**
   Dim

5. **Materion Protocol**
   Mae'n amserol i godi materion protocol a hyfforddiant gyda'r pwyllgor. Mae'r cadeirydd Rhys Tudur yn nodi'r pwysigrwydd o wneud penderfyniadau clir a chadarn cyfreithlon. Mae'n hanfodol i bawb deall be sydd yn cael eu cytuno.
   Beth yw'r materion pwysig sydd yn codi:
   - Nodwyd y bydd angen i'r holl aelodau ddarllen a deall y ddogfen genedlaethol 'Y Cynghorwyr da' - (Mae'r Clerc wedi anfon copi electroneg i'r holl aelodau a chynnig copi caled os oes angen).
   - Rhaid dilyn pob rheol a pholisi.
   - Y Cadeirydd a'r Clerc sydd yn penderfynu beth sydd yn mynd ar yr agenda.
   - Nid oes modd newid penderfyniad cadarn cyfreithlon ond mae modd i'r Clerc a'r Cadeirydd wneud fan newidiad.

   Mae Arfon Hughes yn nodi nad yw'n fodlon bod penderfyniad wedi ei wneud yn gyfreithlon ar fater Morheli, Nefyn. Mae'n nodi nad oedd holl aelodau'r pwyllgor gyda'r wybodaeth gywir nac wedi pleidleisio yn gyfreithlon. Mae'r perchennog tir yn frwdfrydig i wneud gwelliannau i'r safle a bydd o fudd i'r ardal. Nodwyd nad oes hawl i'w Cyngor Tref wrthod i'r perchennog tir symud na thynnu'r fainc.
   Cynigwyd Arfon Hughes (eilydd Gwynfor Jones) i'r Clerc cael arweiniad ar y mater.

Mae'r Clerc wedi rhannu rhaglen hyfforddiant Un Llais Cymru ac mae'r Cadeirydd yn annog unigolion i fynychu'r sesiynau yma. Nodwyd eu bod yn aml yn Abergele neu Llangefni sydd yn eithaf pell i deithio, bydd y Clerc yn holi am gynnal sesiynau ym Mhwllheli neu Caernarfon i'r dyfodol.

**6. Sedd wag**

Yn dilyn ymddiswyddiad dau aelod o'r Cyngor Tref yn ystod y mis mae'r aelodau yn bryderus iawn am y rheswm mae'r cyn aelodau yn gadael. Cynigwyd Siân Hughes ddylai ofyn i'r cyn aelodau am reswm ymddiswyddo fel y gellir gwneud newidiadau / gwelliannau fel yr angen. Cytunwyd ei fod yn bwysig iawn i werthuso'r pwyllgor yn y modd yma. Bydd y Clerc yn gyrru gwerthusiad swyddogol pan mae aelod yn ymddiswyddo.
Mae un sedd wag yn Edern ac un sedd wag yn Forfa Nefyn, Cynigwyd Arfon Hughes (eilydd Sian Hughes) i'r Clerc rhoi hysbysebion i'r seddi gwag gyda dyddiad cau 07/12/2018.

**7. Gwasanaethau Ieuenctid**

Rhian Hughes-Jones yn egluro'r hyn y mae Cyngor Gwynedd yn ei argymell sef;

- Aelod o'r Cyngor Tref i fynychu ar y noson i amlinellu disgwyliadau gennym ni ellir yn gyfreithiol ddal yr ieuenctid yn y ganolfan.
- Y Cyngor Tref sydd yn gyfrifol am y noson.
- Y Cyngor Tref sydd yn atebol am unrhyw niwed neu falu.
- Bydd angen gwneud yn siŵr bod yr yswiriant yn ddigonol.

Cynigwyd Rhys Tudur (eilydd Bleddyn Evans) i edrych ar ba ganllawiau sydd ar gael i redeg Clwb Ieuenctid a chael amcan bris am arweiniad cyfreithiol.
Nodwyd Y Cadeirydd y bydd angen cynnal ymgynghoriad cyhoeddus cyn y gellir ei osod ar y presept, nid oedd cynigydd i hyn.

**8. Awdit**

Dim Diweddariad.

**9. Traethau**

Diweddariad gan Sian Hughes – Mae Sian Hughes a Gruffydd Williams yn cyfarfod gyda'r Aelod Cabinet a swyddogion Cyngor Gwynedd i drafod materion traethau 19/11/2018. Bydd Sian Hughes yn adrodd yn ôl i'r pwyllgor.
Nodwyd bod y Cyngor Tref wedi derbyn anfoneb am £5000.00 gan Gyngor Gwynedd.

**10. Llwybrau**

Diweddariad gan Sian Hughes – Mae Sian Hughes yn disgwyl ymateb gan Dewi Owen Swyddog Llwybrau Cyngor Gwynedd ynglŷn â llwybr Pwll Parc. Mae hefyd wedi derbyn cwynion ynglŷn â'm diffyg arwyddion ar rhai o'r llwybrau.

**11. Siop Siarad**

Diweddariad gan Rhys Tudur – Mae'r gwaith adnewyddu yn mynd yn ei flaen diolch i ieuenctid Nefyn am eu gwaith arbennig dan arweiniad Andrew Owen.
Mae bil trydan hanesyddol wedi ei dderbyn eisoes, penderfynwyd talu'r dyledion o gyfrif BIG. Bydd wrth gwrs angen talu bil cyfredol o gyfrif cyffredin y Cyngor Tref.
Mae Bleddyn Evans wedi bod yn archwilio i wresogyddion yw gosod yn y Siop Siarad ac wedi cael prisiau. Cynigwyd Catrin Roberts (eilydd Sian Hughes) ein bod yn mynd am y gwresogyddion rhataf a bydd Bleddyn Evans yn trefnu hyn.

Clerc: Rhian Hughes-Jones
Craig y Mor, Ffordd Dewi Sant, Nefyn, Pwllheli, Gwynedd, LL53 6EA.
• Symudol: 07748 906 651 • Ebost: clercctnefyn@gmail.com
Cadeirydd: Rhys Tudur • 07825 129 737

**12. Clirio Dogfennau Hanesyddol**

Mae'r Clerc wedi trefnu dyddiadau i glirio; 24/11/2018. Bydd y Clerc yn Siop Siarad 10:00 – 14:00, a diolchgar iawn os gellir gwirfoddoli i helpu gyda'r gwaith.

**13. Gwynedd Digidol**

Nodwyd Bleddyn Evans bod y gwaith yn parhau a'i fod wedi gyrru'r pecyn gwybodaeth ymlaen i'r busnesau sydd o fewn dalgylch y Wi-Fi, dim ond un busnes sydd ddim wedi trafod ac mae Bleddyn Evans am fynd ar ei hol eto. Mae'r Cyngor Tref dal i ddisgwyl am ddyddiad gan Fenter Môn i symud ymlaen i'r cam nesaf.

**14. Tir ymddiriedolaeth Nefyn**

Dim Diweddariad

**15. Bin Halen**

Mae'r Clerc wedi gyrru e-bost a ffonio Cyngor Gwynedd ynglŷn â'i chynnig i lenwi biniau halen yr ardal am ffi yn daladwy gan y Cyngor Tref gan ofyn am ragor o wybodaeth;

1. Lle mae'r biniau halen?
2. Pwy sydd yn llenwi'r biniau?
3. Ydi'r Cyngor Tref angen trwydded?
4. Be ydi'r amodau?
5. Ydi'r biniau yn cael eu llenwi ar gais y gymuned?
6. Cyfrifoldeb pwy yw'r biniau?

Cytunwyd i'r Clerc fynd yn ôl at Gyngor Gwynedd gyda'r cwestiynau eto ac adrodd yn ôl i'r Cyngor Tref.

**16. Polisi Cyfryngau Cymdeithasol**

Rhys Tudur yn egluro'r polisiau a'u pwysigrwydd i rheoli gwybodaeth y Cyngor Tref. Ni ellir bostio unrhyw wybodaeth os nad yw wedi ei gytuno gan y Cyngor Tref. Nid ellir rhoi barn personol ar unrhyw fater Cyngor Tref. Cynnigwyd Arfon Hughes (eilydd Gwynfor jones) i fabwysiadu'r rheoliadau a cytunwyd y pwyllgor.

**17. Is-Pwyllgor Gweithgareddau**

Diweddariad gan Lleucu Jones – **Gweler Atodiad 1**

Rhys Tudur yn diolch ar ran y Cyngor Tref i Arfon Hughes am ei waith yn trefnu'r coed Nadolig ac i Bleddyn Evans am drefnu'r goleuadau. Diolch hefyd i aelodau'r is-bwyllgor gweithgareddau am ei gwaith.

Nodwyd Gwynfor Jones fydd angen rhoi 'Blethdorch i gofio' ar agenda mis Gorffennaf fel bod digon o amser yw trafod.

**18. Cyllid 3-5 mlynedd**

Diweddariad gan Arfon Hughes – **Gweler Atodiad 2**

Nodwyd y bydd angen creu cynllun busnes 3-5 mlynedd i'r holl brosiectau sydd ar y presept.

Cynigwyd Arfon Hughes (eilydd Rhys Tudur) i symud cyfarfod Ionawr o 08/01/2019 i 15/01/2019 fel bod digon o amser ar ôl y gwyliau i wneud newidiadau i'r presept cyn ei gyflwyno i Gyngor Gwynedd. Mae'r Pwyllgor yn cytuno.

**19. Ymgynghoriad Cyhoeddus Polisi Cynllunio**

- LLecynnau Agored Mewn Datblygiadau Tai Newydd
- Tai Marchnad Lleol

Mae'r ymgynghoriadau yma yn unol â'r Cynllun Datblygu newydd. Mae Gruffydd Williams eisoes darparu map i'r adran Polisi ond nid yw'r newidiadau wedi eu gwneud ar y ddogfen. Cynigwyd Rhys Tudur (eilydd Catrin Roberts) i

Gruffydd Williams yrru copi ymlaen i'r adran Polisi yn ogystal â chopi i'r Clerc. Nodwyd y bydd angen gwneud hyn cyn 22/11/2018.

**20. Arolwg Trefniadau Etholiadaol**

Gwybodaeth gan Sian Hughes – Nodir bod ward Morfa Nefyn ac Edern yn cael eu huno gyda Dinas a Tudweiliog a Llangwnnadl. Mae hyn yn creu ward mawr, gydag un Cynghorydd yn ei warchod. Bydd y ward newydd yn gyfrifol am dair ysgol a dau Gyngor Cymuned / Thref. Nid yw hyn yn effeithio'r Cynghorau cymuned / Thref ar hyn o bryd.

**21. Llyfrgell**

Mae Sharon Williams wedi derbyn cadarnhad gan Gyngor Gwynedd na fydd newid yn y les tan o leiaf 2020, mae Sharon Williams hefyd wedi derbyn bras amcan ar gyfer y presept. Bydd Sharon Williams yn rhannu'r rhain hefo Arfon Hughes. Mae pryder fod y wybodaeth yma yn wahanol i'r hyn a dderbyniodd yn wreiddiol.

Nodwyd y bydd angen gwneud gwaith adnewyddu i'r llyfrgell yn unol â'r cytundeb. Nodwyd y buasai'n syniad gwneud y gwaith yma cyn gynted â phosib. Cynigwyd Arfon Hughes (eilydd Sian Hughes) i Sharon Williams drefnu 3 bris i wneud y gwaith a'i chyflwyno i'r Clerc. Bydd y Clerc yn trefnu hysbyseb yn y Llanw Llyn.

**22. Blodau**

Gwybodaeth gan Sharon Williams – Mae'n amserol i wneud gwaith plannu ar gyfer y gwanwyn. Bydd y gwaith yn cael ei wneud gan wirfoddolwyr ond bydd angen cyllid i archebu'r planhigion ac ati. Mae'r pwyllgor yn cytuno i'r cais yma, bydd angen derbyn prisiau gan nad oes cyllideb ar ôl i Nefyn.

Nodwyd bod y gwaith yma i Nefyn yn unig. Mae gan Forfa Nefyn ac Edern arian ar ôl yn ei chyllid, bydd y Clerc yn gyrru gwybodaeth gyllidol ar hyn i Sian Hughes fel y gellir ei ddefnyddio.

Mae'r Cadeirydd Rhys Tudur yn cymryd y cyfle yma i ddiolch i Gwynfor Jones, Sian Hughes ac Arfon Hughes am gynrychioli'r Cyngor Tref yn gosod torch yn Edern, Morfa Nefyn a Nefyn.

**Ceisiadau Cynllunio**

**C18/0864/42/LL**
Trosi capel i ffurfio rhan o'r Ty capel presennol ynghyd a codi estyniad i gefn y ty presennol.
Capel Caersalem, Lon Terfyn, Morfa Nefyn
**Dim Gwrthwynebiad**

**C18/0776/42/LL**
Newid defnydd gorsaf heddlu i dy annedd.
Swyddfa'r Heddlu, Ffordd Dewi Sant, Nefyn
**Dim Gwrthwynebiad**

**C18/0894/42/LL**
Adeilad storio i gynnwys hefyd toiledau a ffreutur
Hen Bost, Y Groes, Nefyn
**Cefnogol**

**C18/0947/42/LL**
Adeiladu estyniad deulawr i'r ty presennol er mwyn darparu caffi ar y llawr gwaelod a lleoli'r ty ar y llawr cyntaf (cais diwygiedig)
Wern, Nefyn
**Cefnogol**

Clerc: Rhian Hughes-Jones
Craig y Mor, Ffordd Dewi Sant, Nefyn, Pwllheli, Gwynedd, LL53 6EA.
• Symudol: 07748 906 651 • Ebost: clercctnefyn@gmail.com
Cadeirydd: Rhys Tudur • 07825 129 737

**C18/0955/42/RC**
Tynnu cytundeb 106 arwyddwyd ar gais 2/22/448B syn cyfyngu defnydd yr adeilad ar tir i ddefnydd amaethyddol a dim defnydd busnes na masnachol.
Northern Lights, Lon-tyn-pwll, Nefyn
**Gwrthwynebu - Bydd newid defnydd o'r tir i greu unrhyw ddatblygiad masnachol yn creu peryg difrifol ar y ffordd i'r safle. Mae'r ffordd yn cael ei ddefnyddio gan gerddwyr bob dydd. Mae'n beryg fel ac y mae gyda ochrau uchel a nid oes llawer o lefydd i basio. Mae'r Cyngor Tref yn Bryderus iawn am dynnu cytundeb 106.**

**C18/0828/42/AM**
Ty unllawr a mynedfa gerbydol newydd
Tir ger Rhydwen, Lôn yr Eglwys, Morfa Nefyn
**Dim Gwrthwynebiad**

**C18/0939/42/LL**
Estyniad llawr daear I'r cefn, estyniad llawr cyntaf I'r ochr, amnewid cladio a llwyfan pren a creu mynedfa gerbydol newydd ac ardal barcio mwy.
Marine Cottage, Lon Penrallt, Nefyn
**Dim Gwrthwynebiad**

<u>**Gohebiaeth**</u>

1. **Un Llais Cymru -** Bwletin Tachwedd 2018
2. **SLCC** - Bwletin Tachwedd 2018
3. **Clerks & Councils Direct** – Tachwedd 2018
4. **Local Council Update** – Tachwedd 2018
5. **Llywodraeth Cymru** - Adroddiad Blynyddol Drafft Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol – Chwefror 2019
6. **Chwarae Cymru -** E-fwletin Chwarae Cymru Hydref 2018
7. **Llywodraeth Cymru** - Adolygiad CTC - Cylchlythyr Hydref
8. **Cyngor Gwynedd** - Cysylltwr Cymunedol Ardal LLŷn
9. **Un Llais Cymru -** Cyfarfod Grŵp Cyfeiriol Budd-ddeiliaid Betsi Cadwaladr
10. **Un Llais Cymru -** Cydgrynhoi ac Adolygu Is ddeddfwriaeth Cydgrynhoi Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Dosbarthiadau Defnydd) 1987 a Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) 1995
11. **Cyngor Gwynedd -** Taclo Unigrwydd Mewn Cymunedau
12. **Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru -** gwahoddiad i gymryd rhan yn y ffordd y mae cyrff cyhoeddus yng Nghymru'n llwyddo i wynebu heriau digidol ac archwilio cyfleoedd.
13. **Cyngor Tref Porthmadog -** dymuniad i wahodd yr Eisteddfod I Llŷn ac Eifionydd yn 2021 neu 2025.
    <u>Nodwyd fod Cyngor Tref Nefyn yn gefnogol i'r cais yma a cytunwyd i'r Clerc wybyddu Cyngor Tref Porthmadog o'r gefnogaeth.</u>
14. **Cyngor Gwynedd** - Hysbyseb am Aelod Annibynnol o Bwyllgor Safonau'r Cyngor
15. **Cyngor Gwynedd** - Rhaglen Grant Dathliad Gaeaf Age Cymru
16. **Iechyd Cyhoeddus Cymru** - Canlyniadau Rhaglen Mesur Plant 2016 – 17
17. **Clwb Moduro Harlech a'r Cylch Cyf** - Rali Goffa James Trenholme - Tachwedd 17/18 2018
18. **Cylch yr Iaith** - Twristiaeth yng Ngwynedd
19. Digwyddiadau Cadoediad annog pob aelod i ddefnyddio gwefan Cymru'n Cofio Wales Remembers 1914-1918

20. **Cyngor Gwynedd -** Cynhadledd Pobl Hŷn Gwynedd 16.11.18 GOPC:Cyhoeddi aelodau'r Panel a Rhestr Stondianu
21. Un Llais Cymru - Hyfforddiant Cynllunio Cymunedol
22. **Tîm Lluoedd Arfog –** Arolwg
23. **Post Prydeinig –** Gwybodaeth am sgam
24. **Cyngor Gwynedd –** 'Pa wasanaeth sydd yn bwysig i chi?
25. **Cyngor Gwynedd –** Colofnau Rhyfel yn Llyn

**Taliadau wedi eu gwneud**

| | |
|---|---|
| **Cyflog y clerc –** Tachwedd | **£797.57** |
| **PAYE -** HM Revenue & Customs | **£33.88** |
| **BACSTAL –** Gwasanaeth taliadau | **£118.50** |
| **Ashley Hughes –** Nwyddau Cefnogol | **£4.00** |
| **Un Llais Cymru –** Hyfforddiant Cyllid Rhian Hughes-Jones ac Arfon Hughes. @ £40 yr un | **£80.00** |
| **Cyngor Gwynedd –** Rhent Tir y Ddol | **£100.00** |
| **Cyngor Gwynedd –** Gwasanaeth Archwilio Mewnol | **£240.00** |
| **J G Jones –** Torrwr Beddi<br>29.10.2018 - £425.00<br>29.10.2018 - £375.00 | **£800.00** |
| **Mr David Parry** – Gwaith Mynwentydd<br>4ydd Taliad Nefyn - £833.00<br>5ed Taliad Morfa Nefyn - £166.00 | **£999.00** |
| **Diffibriliwr** - Ysgol Nefyn | **£76.00** |
| **Canolfan Morfa Nefyn** – Cyfraniad | **£250.00** |
| **Cae Chwarae Edern** – Cyfraniad | **£250.00** |

**<u>Taliadau wedi eu derbyn</u>**

| | |
|---|---|
| **Ifan Hughes** – Trefnwyr Angladdau | **£1400.00** |

**<u>Ceisiadau am gyfraniad</u>**

1. **LLYFRAU LLAFAR CYMRU** - Bob blwyddyn byddwn ni, yn Llyfrau Llafar Cymru yn recordio 50 o lyfrau Cymraeg a Saesneg fel y gall pobl sydd â nam ar eu golwg fwyhau pob math o lenyddiaeth.
2. **Nyrsys Marie Curie -** Mae'r holl arian sydd yn cael ei cyfrani yn cynorthwyo Nyrsys a gwasanaethau lleol Marie Curie, felly gall y claf a teuluoedd yn y cymuned gael help gan eich rhodd.
3. **Prosiect Plas Carmel, Anelog –** Adfer hen adeilad capel unigryw a datblygu'r safle fel atyniad treftadaeth.

**Materion yw rhoi ar agenda Nesaf**

Morheli – Adrodd yn ôl gydag argymhelliad Un Llais Cymru
Gwefan Cyngor Tref Nefyn a thudalen Facebook – Materion sydd yn codi
Les y Siop Siarad – angen ei adnewyddu

Clerc: Rhian Hughes-Jones
Craig y Mor, Ffordd Dewi Sant, Nefyn, Pwllheli, Gwynedd, LL53 6EA.
• Symudol: 07748 906 651 • Ebost: clercctnefyn@gmail.com
Cadeirydd: Rhys Tudur • 07825 129 737

**Atodiad 1**

COFNODION Cyfarfod Is-bwyllgor Gweithgareddau, Nos Fawrt 13/11/2018 Siop Siarad am 6:30yh

**Presennol**

Sharon Williams (Cad.) Glenda Rice Sian Hughes Lleucu Jones Janice Evans
Rhian Hughes-Jones (Clerc)

1. **Ymddiheuriadau**
   Wedi derbyn ymddiheuriadau gan Catrin Roberts

2. **Datgan buddiant ariannol neu gysylltiad bersonol**
   Dim

3. **Cofnodion 18/10/2018**
   Wedi eu derbyn yn gywir

4. **Unrhyw Fater Brys**
   Dim

5. **Cefnogol**
   Nodwyd bod Sharon Williams wedi ei henwebu i fod yn gadeirydd yr is-bwyllgor.

6. **Trefniadau goleuo'r goeden**
   **Ffordd** - Mae Sharon Williams wedi trefnu cau'r lon rhwng Y Groes a Gwesty Nanhoron. Bydd yn llenwi'r ffurflenni priodol a'i dychwelyd i Gyngor Gwynedd cyn gynted a bod modd. Bydd arwyddion ar gael yw benthyg gan Gyngor Gwynedd a nodwyd y bydd angen presenoldeb yr heddlu naill ochr i'r ffordd sydd wedi ei gau, bydd Sharon Williams yn trefnu hyn.
   **Sain** – Mae Andrew Owen wedi cynnig darparu offer sain yw defnyddio ar y noson. Cynigwyd i Lleucu Jones gyfarfod hefo Mr Andrew Owen cyn y noson i dderbyn hyfforddiant gyda'r offer.
   **Cerddoriaeth** – Bydd Lleucu Jones yn trefnu cerddoriaeth at y noson ac yn trefnu taflenni yw rhannu.
   **Hysbysebu** – Diolch i Rhian Hughes-Jones am ddarparu'r posteri ac i Lleucu Jones am drefnu'r hysbyseb yn Llanw Llyn. Bydd Sharon Williams yn hysbysebu'r ysgol o drefniadau'r noson.
   **Coeden** – Mae'r Cyngor Tref wedi derbyn un pris i osod y coed i gyd. Cytunwyd i dderbyn y pris yma. Bydd y Clerc yn hysbysu'r contractwr.
   **Canu Torfol** – Yn dilyn tri chan gan ddisgyblion Ysgol Nefyn bydd y dorf yn cael cyfle i ganu. Lleucu Jones i drefnu'r canu torfol.

7. **Cais am gyfraniad**
   Mae'r Cyngor Tref wedi derbyn dau gais am gyfraniad;
   - Canolfan Morfa Nefyn a Chylch Meithrin Morfa Nefyn yn gofyn am gyfraniad o £250 tuag at weithgareddau i ddathlu'r Hen Galan. Cynigwyd Sharon Williams (eilydd Lleucu Jones) a chytunwyd i wneud y cyfraniad.
   - Pwyllgor Cae Chwarae Edern yn gofyn am gyfraniad o £250 tuag at weithgareddau yn ymwneud a phrosiect ieuenctid. Cynigwyd Sharon Williams (eilydd Janice Evans) a chytunwyd i wneud y cyfraniad.

Clerc: Rhian Hughes-Jones
Craig y Mor, Ffordd Dewi Sant, Nefyn, Pwllheli, Gwynedd, LL53 6EA.
• Symudol: 07748 906 651 • Ebost: clercctnefyn@gmail.com
Cadeirydd: Rhys Tudur • 07825 129 737

# Cyngor Tref ***NEFYN*** Town Council

<u>COFNODION</u> Cyfarfod Cyngor, Nos Fawrt 13/11/2018 Siop Siarad am 7yh

**<u>Atodiad 2</u>**

**<u>Presennol</u>**

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Arfon Hughes (Cad.) | Bleddyn Evans | Catrin Roberts | Rhys Tudur | Rhian Hughes-Jones (Clerc |

1. **Ymddiheuriadau**
   Wedi derbyn ymddiheuriadau gan Janice Evans

2. **Datgan buddiant ariannol neu gysylltiad bersonol**
   Dim

3. **Ethol Cadeirydd**
   Bu i'r Clerc ddechrau'r cyfarfod gan dderbyn enwebiad i Arfon Hughes ei ethol fel cadeirydd Is-bwyllgor Ariannol. Cytunwyd i Arfon Hughes dderbyn y sedd.

4. **Materion Brys**
   - Cyfarfod Cyngor Llawn 08/01/2019. Cynigwyd symud y cyfarfod ymlaen at 15/01/2019 gan ei fod yn anghyfleus yn syth ar ôl y Nadolig gyda gwaith ychwanegol Preasept yw gwneud. Cytunwyd i symud y cyfarfod i'r 15fed.
   - Gosod plethdorch. Nodwyd bod y Clerc ac Arfon Hughes wedi trio a methu cael torch pabi gwyn. Bu Arfon Hughes yn trafod gyda'r Lleng Prydeinig ac wedi dod a thorch yw dangos fel enghraifft o'r unig dorch sydd ar gael bellach. Nodwyd Catrin Roberts y buasai yn hapus i wneud torch o babi gwyn bapur ar gyfer y dyddiad. Nodwyd na ellir gosod torch o babi gwyn yn ystod y seremoni ei hun. Cytunwyd i bwrcasu'r tair torch sydd yn £18.50 yr un gyda phabi coch. Bu'r Clerc yn gwybyddu a gofyn am wirfoddolwyr i osod y tair torch yn ystod y seremoni.

5. **Cyllid 2019-20**
   Arfon Hughes yn egluro'r gyllideb a newidiadau ac ychwanegiadau. **Gweler Atodiad 1**
   - **Cyllid a Chynllun Busnes** – Nodwyd y bydd rhaid gwneud cyllideb a chynllun busnes 5 mlynedd ar gyfer awdit.
   - **Llwybrau** - Nodwyd bod gryn dipyn o waith ychwanegol yn cael ei wneud ar lwybrau. Cytunwyd y bydd rhaid gwneud trefniadau mwy cadarn gan amlinellu be yn union ydi'r gwaith ychwanegol.
   - **Rhoddion** – Nodwyd y bydd rhaid cymryd gofal gyda rhoddion i'r dyfodol gan roi i achosion lleol yn unig.
   - **Diffibriliwr** – Nodwyd bod gryn dipyn o gostau rhedeg gyda'r diffibriliwr i gyd. Bydd y Clerc yn edrych i mewn i hyn i'r dyfodol.
   - **Siop Siarad** – Amlygir bil trydan i'r Siop Siarad, bydd angen cymryd hyn i ystyriaeth i'r dyfodol. Cytunwyd i drefnu cael gwresogyddion trydan wedi eu gosod ar y waliau yn Siop Siarad, bydd hyn yn gostau ychwanegol.
   - **Clwb Ieuenctid** – Nodwyd y bydd angen swm mawr o arian i'r Cyngor Tref rhedeg y clwb. Mae'n fater i'r pwyllgor llawn ddatrys gan nodi y bydd angen cynnal ymgynghoriad cyhoeddus i hyn cyn y gellir ei osod ar y Preasept.
   - **Wi-Fi Cymunedol** – Mae costau o £1000 ar gychwyn y prosiect ond y gobaith yw i'r busnesau lleol gyfrannu at y dyfodol.
   - **Arian wrthgefn** – Nodwyd bod yna lot o arian wrthgefn gan y Cyngor Tref a gellir defnyddio ychydig o'r arian i dalu am gostau ychwanegol. Bydd angen edrych yn iawn ar hyn i'r dyfodol.

6. **PREASEPT**
   **Cytunwyd i godi'r Preasept i £65,000 gyda'r balans yn dod o'r arian wrthgefn.**

# Cyngor Tref ***NEFYN*** Town Council

COFNODION Cyfarfod Cyngor, Nos Fawrt 13/11/2018 Siop Siarad am 7yh

Atodiad 1

## CYLLIDEB 2019-2020

| ITEM | TALIADAU | Incwm |
|---|---|---|
| Rent – Cae Fynwent – | | 200.00 |
| Torri llwybrau | 10890 * | |
| Gwaith Ychwanegol | 3000 * | |
| Torri Mynwentydd | 6540 | |
| Toiledau | 12000 | |
| Traethau Nefyn a Morfa Nefyn | 5000 | |
| Yswiriant Cyngor Tref | 1700 | |
| Cyflog y Clerc | 10300 | |
| Treth Incwm y Clerc – HMRC | Yn y cyflog | |
| Pensiwn y Clerc | 150 | |
| Stationary | 325 | |
| General Donations | 3000 | |
| Coed Nadolig | 1300 | |
| Cwrsiau | 300 | |
| Blodau – Nefyn, Morfa Nefyn ag Edern | 800 | |
| Accountant - Bacstal | 420 | |
| Audit | | |
| • - Mewnol | 175 | |
| • - Allanol | 450 | |
| Fees – | | |
| • Un Llais Cymru | 500 | |
| • SLCC | 140 | |
| Dwr Cymru – y fynwent | 200 | |
| Rent – Siop Siarad | 3120 | |
| Menthygfa – Ffordd i'r Fynwent | 1152.88 | |
| Rent Rhandiroedd | 100 | |
| Gof Golom – Nefyn ag Edern – glanhau | 135 | |
| Etholiad | 0.00 | |
| Llyfrgell - Nefyn | 4720.23 | |
| Llyfrgell - Treth | £1750 | |
| **CYFANSWM** | **£68168.11** | |
| | | **200.00** |

Awgrymu PRESCEPT £65000 – balans yn dod o gyfrif CTN

*Contract Mr Cliff Hughes – **Yn y Tendar**

Torri llwybrau Arfordir, Y meinciau, Penperyn, Llwybrau Edern a Morfa Nefyn, Cae Chwarae Bryn Mynach a'r Ddol

**Gwaith Ychwanegol**

Cae Ddol trac beiciau, Maes Parcio Y Ddol, Hel sbwriel Bryn Mynach a'r Ddol, Torri Lon Gam, Sbwriel Mynwent Nefyn a Morfa Nefyn, Cloddiau Y Ddol, Llwybrau y mynydd, Glanhau Gof Golom Nefyn ag Edern, Y Bont Edern.

Bydd angen cadarnhad gwell pan mynd am tendar newydd ynglyn a'r gwaith sydd i gael eu gynnwys.

Clerc: Rhian Hughes-Jones
Craig y Mor, Ffordd Dewi Sant, Nefyn, Pwllheli, Gwynedd, LL53 6EA.
• Symudol: 07748 906 651 • Ebost: clercctnefyn@gmail.com
Cadeirydd: Rhys Tudur • 07825 129 737